Bwrdd Busnes Asiantaeth Tŷ'r Cwmnïau - Cofnodion Cryno - 25 Mawrth 2009

Cerdyn Sgorio Busnes Tŷ'r Cwmnïau – Chwefror 2009
Monitrodd y Bwrdd y cerdyn sgorio busnes, gan olrhain y perfformiad yn erbyn y targedau a chan nodi'r cynnydd yn erbyn y deilliannau. Nodwyd yn benodol

- bod y broblem "mae'r system yn brysur" ynglŷn â'r gwasanaethau ar-lein yn mynd yn llai, er bod yna waith i'w wneud o hyd
- bod y ffigurau cydymffurfio wedi cyrraedd y lefelau uchaf erioed

Llwyth Gwaith – Chwefror 2009
Nododd y Bwrdd fod llif y papur a oedd yn dod i law yn dal yn uchel, yn enwedig cyfrifon a Ffurflenni Blynyddol.

Cerdyn Sgorio Manteisio ar E-Ffeilio
Nododd y Bwrdd y cerdyn sgorio fel y'i cyflwynwyd.

Targedau Cyhoeddus 2008/09 Tŷ'r Cwmnïau
Nododd y Bwrdd y cynnydd a oedd wedi'i wneud yn erbyn y targedau cyhoeddus.

Risgiau Critigol y Bwrdd Busnes Asiantaeth
Adolygodd y Bwrdd y risgiau fel y'u cyflwynwyd.

Adroddiad Iechyd a Diogelwch
Nododd y Bwrdd gynnwys yr adroddiad.

Targed Ansawdd Delweddau
Adolygodd y Bwrdd y fethodoleg gyfredol sy'n cael ei defnyddio i samplu'r mesur hwn gan awgrymu treial ar sampl lawer mwy at ddibenion cymharu.

Cerdyn Sgorio Busnes Newydd 2009/10
Adolygodd y Bwrdd y cerdyn sgorio busnes drafft ar gyfer 2009/10.

Rheoli Absenoldebau
Nododd y Bwrdd fod gwelliannau arwyddocaol wedi'u gwneud dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac ystyriodd pa gamau y byddai angen eu cymryd i wella ymhellach ar ein perfformiad cyfredol.

Trieal Prosesu Cellog
Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am y cynnydd a oedd wedi'i wneud hyd yn hyn.

Briff Prosiect Ailddatblygu'r Fewnrwyd
Trafododd y Bwrdd y briff ar gyfer y prosiect er mwyn trafod ailddatblygu'r fewnrwyd fewnol.

Bonws Corfforaethol
Cytunodd y Bwrdd ar yr argymhelliad y dylid newid y ffordd y mae'r rhan o'r bonws sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd yn cael ei chyfrif.

Adolygu Blaenoriaethau Busnes
Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am waith y Grŵp Adolygu Blaenoriaethau Busnes.

Ysgrifenyddiaeth Tŷ'r Cwmnïau
Mawrth 2009